Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adfywio Canol Trefi yng Nghymru

## Offeryn Hunanarfarnu



# Bwriad

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni’n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneud |
| --- | --- | --- |
| Mae gennym weledigaeth hirdymor ar gyfer holl ganol ein trefi. | | |
| Mae gennym arweinwyr gwleidyddol ymrwymedig a gweladwy iawn ar gyfer adfywio canol trefi. | | |
| Mae ein dull o adfywio canol trefi wedi'i integreiddio â'n strategaethau a'n cynllun allweddol – e.e. Cynllun Lles, blaenoriaethau corfforaethol a strategaethau cymunedol, cyngor a rhanbarthol eraill. | | |
| Rydyn ni wedi gosod amcanion SMART ar gyfer adfywio canol trefi. | | |

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni'n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneud |
|---|---|---|
| Rydyn ni'n glir ynghylch manteision a risgiau adfywio canol trefi i ddinasyddion, yr economi leol a chymunedau lleol. | | |
| Mae gennym fframwaith atebolrwydd clir i lywodraethu a chraffu ar ein penderfyniadau wrth adfywio canol trefi. | | |
| Mae gennym brosesau gwneud penderfyniadau ystwyth ac effeithiol wrth gymeradwyo ein gwaith ar ganol trefi. | | |
| Rydyn ni'n gweithredu mewn ffordd dryloyw ac mae pawb yn glir ynghylch sut y gwneir penderfyniadau ar weithgareddau adfywio canol trefi a chan bwy. | | |

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni’n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneud |
|---|---|---|
| Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar adfywio canol trefi yn atebol am eu dewisiadau ac yn cael eu dwyn i gyfrif drwy drefniadau llywodraethu clir. | | |
| Mae gennym ddigon o staff ac adnoddau i ymgymryd â gwaith adfywio canol trefi. | | |
| Mae gennym staff yn y gwasanaethau cywir a chyda'r statws gofynnol i ymgymryd â gwaith adfywio canol trefi. | | |
| Mae gennym ddiwylliant a meddylfryd entrepreneuraidd o fewn y cyngor ar gyfer adfywio canol trefi. | | |
| Gallwn recriwtio'r bobl iawn sydd â'r sgiliau cywir i gyflawni ein gwaith adfywio canol trefi. | | |

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni’n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneud |
|---|---|---|
| Rydyn ni wedi ymgorffori adfywio gyda rhaglenni trawsnewid hirdymor a/neu adferiad o COVID-19. | | |
| Gallwn sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen arnom i adfywio canol trefi. | | |

# Cyfranogiad

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni'n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneud |
|---|---|---|
| Rydyn ni'n cyfathrebu'n fewnol ac yn allanol yn effeithiol am yr hyn y mae'r cyngor a'i bartneriaid yn ceisio'i gyflawni drwy ein gwaith adfywio canol trefi. | | |
| Rydyn ni'n defnyddio arbenigedd a gwybodaeth partneriaid, busnesau, dinasyddion a rhanddeiliaid wrth nodi a chytuno ar ein blaenoriaethau ar gyfer adfywio canol trefi. | | |
| Mae ein blaenoriaethau ar gyfer adfywio canol trefi yn adlewyrchu'r adborth a gawn gan bartneriaid, busnesau, dinasyddion a rhanddeiliaid. | | |

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni’n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneud |
|---|---|---|
| Rydyn ni’n galluogi ein holl randdeiliaid i gymryd rhan lawn yn y gwaith o nodi a chytuno ar flaenoriaethau adfywio canol trefi:<br>• Aelodau Etholedig<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Bwrdd Iechyd Lleol<br>• Awdurdod Tân ac Achub<br>• Awdurdod y Parc Cenedlaethol<br>• Heddlu<br>• Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Siambr Fasnach<br>• Mentrau Cymdeithasol<br>• Grwpiau cymunedol lleol<br>• Dinasyddion unigol | | |
| Rydyn ni’n annog partneriaid, busnesau, dinasyddion a rhanddeiliaid i ddatblygu atebion sy'n helpu i adfywio canol ein trefi. | | |

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni’n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneud |
|---|---|---|
| Rydyn ni’n cefnogi adfywio a arweinir gan y gymuned ac yn annog ein partneriaid, ein busnesau, ein dinasyddion a'n rhanddeiliaid i arwain ar adfywio canol trefi drwy annog a gweithio drwy:<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Cynlluniau Lleoedd | | |
| Rydyn ni’n defnyddio sgiliau a gwybodaeth ein partneriaid, ein busnesau a'n rhanddeiliaid lleol ac yn eu defnyddio i'n helpu i ddatblygu ein rhaglen adfywio. | | |
| Rydyn ni’n mynd ati i geisio adborth gan y gymuned yn barhaus am ein gwaith adfywio arfaethedig, parhaus a chanol trefi yn y dyfodol. | | |

# Hysbysu

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni’n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneud |
|---|---|---|
| Rydyn ni’n defnyddio ystod eang o ddata i ddeall canol ein trefi a nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. | | |
| Mae ein data yn cynnwys:<br>• Ymwelwyr<br>• Digidol – Defnydd Wi-Fi, rhyngweithiadau cyfryngau cymdeithasol, symudiadau teithio, ac ati<br>• Eiddo – rhent, elw ac unedau gwag<br>• Demograffeg dalgylchoedd<br>• Cyd-ddibyniaeth trefi | | |
| Rydyn ni’n gwneud penderfyniadau tryloyw yn seiliedig ar wybodaeth o ansawdd da wrth benderfynu ar adfywio canol trefi. | | |

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni’n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneud |
| --- | --- | --- |
| Rydyn ni’n derbyn gwybodaeth o ansawdd da i:<br>• barnu a ddylem gymeradwyo prosiect adfywio canol tref; a<br>• monitro a gwerthuso perfformiad y gwaith o adfywio canol trefi yn llawn. | | |
| Mae gennym ddiwylliant penderfynu hyderus ac nid oes ar aelodau etholedig ofn herio swyddogion a dwyn pobl i gyfrif. | | |
| Rydyn ni’n adolygu ein gwaith adfywio canol trefi yn rheolaidd er mwyn sicrhau mai ein gweithredoedd a'n penderfyniadau yw'r rhai cywir. | | |
| Rydyn ni’n diwygio ein rhaglenni adfywio canol trefi i adlewyrchu anghenion a gofynion sy'n newid. | | |

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni’n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneud |
|---|---|---|
| Rydyn ni’n gosod targedau a mesurau llwyddiant ar gyfer adfywio canol trefi er mwyn barnu gwelliant dros amser, a monitro'r rhain pan gytunwyd arnynt. | | |
| Rydyn ni’n cymryd camau unioni ar y cyd o ganlyniad i'n gwerthusiad parhaus o raglenni adfywio canol trefi. | | |
| Rydyn ni’n rhannu dysgu ac yn defnyddio tystiolaeth gan gynghorau eraill yng Nghymru ac mewn mannau eraill i ddysgu beth sy'n gweithio/nad yw'n gweithio, yr heriau sy'n ein hwynebu a'r gwobrau posibl. | | |
| Mae gennym drefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith i fonitro'r gwaith o werthuso rhaglenni adfywio'r gorffennol. | | |

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni'n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneud |
|---|---|---|
| Rydyn ni'n adolygu effeithiolrwydd ein penderfyniadau yn y gorffennol ar adfywio canol trefi er mwyn deall yr hyn a weithiodd a'r hyn na weithiodd. | | |
| Rydyn ni'n cynnal gwerthusiad ôl-weithredu o gynlluniau adfywio canol trefi unigol i sicrhau bod yr amcanion a bennwyd gennym yn cael eu cyflawni. | | |
| Gallwn ddefnyddio gwybodaeth gadarn sy'n dangos sut mae ein gwaith adfywio:<br>• gwella lles cymdeithasol ac iechyd pobl leol;<br>• gwella ansawdd adeiladau a chartrefi yng nghanol ein trefi; a<br>• cyflawni targedau lleihau carbon a gwella seilwaith gwyrdd. | | |

# Ymyriad

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni'n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneu |
|---|---|---|
| Rydyn ni wedi diffinio ac egluro rolau, cyfrifoldebau a'n pwerau cyfreithiol i gefnogi ein gwaith adfywio canol trefi. | | |
| Gallwn fanteisio ar sgiliau a gwybodaeth ein partneriaid, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid a'u defnyddio i'n helpu i gymryd camau cyfreithiol i adfywio canol trefi. | | |

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni’n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneu |
|---|---|---|
| Rydyn ni’n rhoi cyngor ac arweiniad o ansawdd da i landlordiaid, busnesau, partneriaid a rhanddeiliaid gan gynnwys:<br><br>Advice to landlords on options for sale, rent and ownership<br><br>• Cyngor i landlordiaid ar opsiynau ar gyfer gwerthu, rhentu a pherchnogaeth<br>• Rhestr o asiantau i helpu i werthu/rhentu<br>• Ffioedd gostyngol drwy'r Cynllun Arwerthwr<br>• Nodi a rhestru Buddsoddwyr/ Datblygwyr posibl<br>• Rhestr o Adeiladwyr/Penseiri cymeradwy<br>• Rhestr gyfansawdd am ddim o Waith | | |

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni’n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneu |
|---|---|---|
| Rydyn ni’n cefnogi landlordiaid i fynd i'r afael ag adeiladau gwag drwy gynnig ystod eang o wasanaethau gan gynnwys:<br>• Defnyddio gwefan yr ALI i hyrwyddo/hysbysebu tir/adeiladau ar gyfer perchnogion<br>• Asiantaeth Gwella Cartrefi<br>• Cynllun Prydlesu'r Sector Preifat sy'n cael ei redeg gan y Cyngor<br>• Cynllun gosodiadau cymdeithasol i baru ymgeiswyr â chartrefi rhent preifat<br>• Cynigion Archebu Ceisiadau Cyhoeddus<br>• Pryniant uniongyrchol gan ALI neu RSL<br>• LOTS a HARPS i greu cartrefi uwchben siopau | | |

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni'n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneu |
|---|---|---|
| Rydyn ni'n rhoi cymorth ariannol i landlordiaid, busnesau, partneriaid a rhanddeiliaid i helpu i adfywio canol trefi gan gynnwys:<br>• Grantiau gwella sy'n gysylltiedig ag enwebiadau i eiddo<br>• Benthyciadau ar gyfer gwaith gwella (di-log neu gyda llog)<br>• Cyngor benthyca masnachol<br>• Gostyngiad mewn cynlluniau TAW a/neu Lwfans Cyfalaf | | |

<table>
<tr><th>Y camau y mae angen eu cymryd</th><th>Ydyn, rydyn ni’n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith</th><th>Na, mae mwy i ni ei wneu</th></tr>
<tr><td>Rydyn ni’n cymryd camau gorfodi rhagweithiol i adfywio canol trefi gan ddefnyddio'n llawn:<ul><li>A.215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – GPG</li><li>A.77-79 o Ddeddf Adeiladu 1984 – strwythurau peryglus, adfeiliedig a dadfeilio</li><li>Deddfau Tai 1985 a 2004 – hysbysiadau gwella, EDMOs, dymchwel, clirio a GPG</li><li>A.79-80 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 – niwsans statudol</li><li>A.4 o Ddeddf Atal Difrod gan Blâu 1949 – trin plâu</li><li>A.29 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 – estyllu</li><li>Hysbysiad Adeiladau Rhestredig/ Gwaith Brys</li><li>Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1936 a 1961 – budr a ferminog</li><li>Enwi a chywilyddio landlordiaid (cyhoeddusrwydd)</li></ul></td><td></td><td></td></tr>
</table>

| Y camau y mae angen eu cymryd | Ydyn, rydyn ni'n dda am hyn ac nid oes angen rhagor o waith | Na, mae mwy i ni ei wneu |
|---|---|---|
| Rydyn ni'n defnyddio ein pwerau i annog adeiladau gwag i gael eu defnyddio un yn ôl yng nghanol trefi:<br>• Adennill dyledion y Dreth Gyngor, Dyledion Statudol neu Ardrethi Busnes (Methdaliad, gorchmynion codi tâl neu Feilïaid)<br>• Llys Sirol neu Weithdrefn Gwerthu Gorfodol<br>• Premiwm Cartrefi Gwag a Chartrefi Gwyliau<br>• Erlyniad<br>• Gorchymyn Prynu Gorfodol<br>• Gorchymyn Anheddau Rheoli Gwag<br>• Gweithdrefn Gwerthu Gorfodol<br>• Prynu Uniongyrchol | | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Facs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

E-bost: info@audit.wales

Gwefan: www.audit.wales